



**Dogfen Ymgynghori  
Ymchwiliad Arfaethedig  
ar ei Liwt ei Hun ar y  
Broses Asesu  
ac Adolygu Digartrefedd**

## Trosolwg



Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) y pŵer i ymgymryd ag ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun' lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod posibilrwydd o gamweinyddu neu fethiant systemig mewn gwasanaeth. Mae'r Ombwdsmon yn awr yn ystyried cynnal ymchwiliad i weinyddu'r broses o asesu ac adolygu digartrefedd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Cynigir hefyd bod yr ymchwiliad hwn yn ystyried unrhyw welliannau ac arferion da sydd wedi codi o ran cyflenwi gwasanaethau yn ystod pandemig COVID-19, ac y byddai modd bwrw ymlaen â nhw i sbarduno newid mewn asesiadau ac adolygiadau digartrefedd yn y tymor hwy. Gwahoddir sylwadau ac ymatebion.

### Sut mae Ymateb

Ymatebwch i'r ymgynghoriad drwy:



neu [Dolen i'r Ymgynghoriad \(Saesneg\)](#)

neu drwy'r post i:

Y Tîm Gwella  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

**Dyddiad ac Amser Cau:** 23:59 ar 30 Hydref 2020

Mae fersiwn print bras ar gael ar gais.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni drwy e-bost: [OwnInitiative@ombudsman.wales](mailto:OwnInitiative@ombudsman.wales) neu drwy'r post i'r cyfeiriad uchod.

**Cofiwch ein bod yn bwriadu cyhoeddi ymatebion llawn i'r ymgynghoriad hwn ar ein gwefan. Os nad ydych chi eisiau i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni pan fyddwch chi'n anfon eich ymateb.**

Gweler ein [hysbysiad preifatrwydd llawn](#).

**Rhagor o  
Wybodaeth a  
Dogfennau  
Cysylltiedig**

## Rhagair

Mae digartrefedd yn effeithio ar bob aelod o gymdeithas, o unigolion nad oes ganddynt rywle i'w alw'n gartref i'r rhai sydd â busnesau, neu sy'n gweithio neu'n byw mewn ardaloedd lle mae digartrefedd yn amlwg. Ceir effaith ehangach hefyd ar argraffiadau pobl o ddiogelwch y cyhoedd, oherwydd credir bod digartrefedd yn effeithio ar dwristiaeth, gan olygu bod ein trefi a'n dinasoedd yng Nghymru yn llai deniadol i ymwelwyr.

Mae llawer o bobl ddigartref yn agored i niwed oherwydd eu hoed, eu hil, eu rhywioldeb neu eu trafferthion iechyd corfforol neu feddyliol. Gallent hefyd fod yn agored i niwed oherwydd profiadau bywyd anffafriol neu niweidiol. Gall bod yn ddigartref waethygu'r gwendidau hyn oherwydd gall hynny gyfyngu neu amharu ar allu'r unigolion hyn i gael gafael ar y gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, lle bo'r rhain ar gael.

Er gwaethaf cyflwyno deddfwriaeth newydd, mae [Deddf Tai \(Cymru\) 2014](#) ("HWA"), mae [Ystadegau Llywodraeth Cymru](#) yn dangos fel y mae nifer yr aelwydydd a aseswyd yn ddigartref yng Nghymru am y cyfnod 2018-2019, wedi cynyddu 8% o'r flwyddyn flaenorol, i dros 31,000. O'r rhain, roedd dros 2,600 o aelwydydd yn cael eu hystyried yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol; mae hynny'n gynydd o 18% ers y flwyddyn flaenorol. Cafodd heriau'r cynnydd mewn digartrefedd eu cydnabod ac adroddwyd arnynt yn helaeth gan gyrff yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a ffurfiodd y Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Ddigartrefedd, a sectorau'r trydydd sector cyn dechrau pandemig COVID-19.

Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi newid dull y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru o ddelio â digartrefedd yn sylweddol ac yn radical. Yn ystod wythnosau cynnar y pandemig, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau brys gyda'r nod o sicrhau bod pobl oedd yn cysgu allan, neu mewn perygl o hynny, a'r rheini mewn llety dros dro annigonol, yn cael cymorth a gwarchodaeth. Roedd hyn yn cynnwys dyrannu hyd at £10 miliwn i Awdurdodau Lleol i ddechrau, i'w galluogi nhw i symud pobl oedd yn cysgu allan oddi ar y stryd ac i mewn i westy/llety gwely a brechwast, gan olygu bod mwy nag 800 o bobl yn cael cartref dros dro.

Fodd bynnag, nid sicrhau bod gan bobl ddigartref do uwch eu pennau oedd yr unig nod. Mae parodrwydd wedi bod, ac yn parhau i fod, i gyfuno ymdrechion amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod gan unrhyw un sy'n ddigartref, neu'n datgan ei fod yn ddigartref, fynediad at gartref diogel ac addas wrth symud ymlaen. Mae uchelgais hefyd o ddarparu cymorth seiliedig ar y person, er mwyn cynnwys y gwasanaethau cymorth a chefnogaeth ychwanegol sydd eu hangen ar y bobl hyn i gadw llety ac atal colled yn y dyfodol.

1 Adran 4 Deddf 2019

2 Adrannau 62 HWA

3 Adran 85 HWA

Mae [cynllun cam-wrth-gam Llywodraeth Cymru](#) i roi diwedd ar ddigartrefedd, ochr yn ochr ag ymrwymiad Awdurdodau Lleol i ddatrys problemau

Mae'n galonogol clywed bod mwy o bwyslais wedi bod ar gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, partneriaid tai, sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ystod y pandemig, a'u bod, mewn rhai achosion, wedi gallu cyrraedd a helpu pobl sydd heb ymwneud â gwasanaethau fel hyn yn y gorffennol, ac efallai na fyddent wedi gwneud hynny oni bai am y pandemig. Mae hefyd yn braf clywed nad yw hwn yn cael ei ystyried yn [fater sy'n ymwneud â thai](#) yn unig mwyach, ond yn fater i'r holl [wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru](#).

Mae gan Awdurdodau Lleol rôl allweddol i'w chwarae o hyd o ran atal digartrefedd yn ogystal â chefnogi pobl sydd wedi canfod eu hunain yn ddigartref. Felly, mae'n bwysig sicrhau, ar ôl penderfynu a yw rhywun naill ai ddim yn ddigartref neu nad oes ganddo hawl i gael cymorth, bod y person hwnnw hefyd yn ymwybodol o'r hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad asesu. Mae hefyd yn bwysig sicrhau, pan gaiff penderfyniadau eu gwrthdroi adeg adolygu, bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu ar draws yr awdurdod, ac yn ehangach o bosibl. Mae'r pandemig wedi dangos bod gan Awdurdodau Lleol ddulliau ac arferion i helpu pobl agored i niwed a phobl ag anghenion cymhleth, a'u bod yn fodlon newid y rheini. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau, gwelliannau ac arferion da o ran cyflenwi gwasanaethau sydd wedi codi yn ystod y pandemig yn gallu cael eu cario ymlaen er mwyn sbarduno newid mewn asesiadau ac adolygiadau o ddigartrefedd yn y tymor hwy.

Er ei bod yn debygol mai blaenoriaeth gyntaf rhywun sy'n ddigartref fydd dod o hyd i rywle i gysgu neu aros, yn hytrach na gweithio ei ffordd drwy'r broses gwyno, efallai nad yw'n syndod mai ychydig iawn o gwynion am weinyddu digartrefedd sy'n cael eu derbyn gan OGCC, ac mae hyn yn destun pryder.

Mae [Deddf Ombwdsmon Cyhoeddus \(Cymru\) 2019](#) ("deddf 2019") yn rhoi grym i'r Ombwdsmon ymgymryd ag ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun',<sup>1</sup> nad oes angen i achwynydd unigol eu cymell. Mae OGCC yn awr yn cynnig ymchwilio i weinyddiaeth'r rhan hon o Ddeddf Tai Cymru (HWA). Yn benodol, byddai'r ymchwiliad hwn yn ystyried a yw Awdurdodau Lleol yn gweinyddu'r asesiad ar ddigartrefedd<sup>2</sup> a'r broses adolygu,<sup>3</sup> yn briodol, yn deg ac yn agored, ac a ydynt yn sicrhau i raddau digonol bod pobl yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Byddai'r ymchwiliad hefyd yn edrych ar sut caiff unrhyw wersi a ddysgir o'r adolygiadau eu rhannu a, lle bo hynny'n briodol, eu defnyddio fel cyfleoedd i roi sail i brosesau asesu ac arferion lleol ac adeiladu arnynt.

## Diben yr Ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch a ddylai OGCC gynnal ymchwiliad i weinyddu'r asesiad o ddigartrefedd<sup>4</sup> a'r broses adolygu<sup>5</sup> gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried pa rai o'r camau

gweithredu a'r dysgu sydd wedi deillio o ymarfer gweinyddol da yn ystod y pandemig y byddai modd eu cario ymlaen i sbarduno newid neu ddysgu ehangach.

Mae gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr a sefydliadau'r trydydd sector ac yr adroddir arno'n ehangach yn awgrymu bod camweinyddu systemig o ran gweinyddu'r prosesau hyn, sy'n achosi anghyfiawnder i grŵp o aelodau agored i niwed o'n cymdeithas. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio barn ynghylch a yw'r mater hwn er budd y cyhoedd, ac ai'r OGCC yw'r corff priodol i gynnal ymchwiliad o'r fath.

## Dyletswyddau u Cyfreithiol Awdurdodau

Mae Adran 62 HWA yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i asesu person sydd wedi cyflwyno ei hun yn ddigartref, i weld a yw'r person yn gymwys i gael cymorth.

Mae Adran 63 HWA yn nodi, os yw'r penderfyniad asesu (neu adolygiad o'r penderfyniad hwnnw) yn groes i fuddiannau'r ceisydd, rhaid i'r awdurdod lleol roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r ymgeisydd. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd hysbysu'r ceisydd o'r hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

Mae Adran 73 HWA yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau llety addas i'w feddiannu gan berson os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod y person yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.

Mae Adran 85 HWA yn darparu bod gan yr ymgeisydd hawl i ofyn am adolygiad o'r canlynol o fewn 21 diwrnod i benderfyniad gael ei wneud:

- penderfyniad gan awdurdod tai lleol ynghylch cymhwyster y ceisydd am gymorth;
- penderfyniad gan awdurdod tai lleol nad oes dyletswydd yn ddyledus i'r ceisydd o dan adran 66, 68, 73, neu 75 (mae'r adrannau hyn yn amlinellu'r dyletswyddau penodol i ymgeiswyr digartref);
- penderfyniad awdurdod tai lleol fod dyletswydd ar y ceisydd o dan adran 66, 68, 73, neu 75 wedi dod i ben (gan gynnwys lle mae'r awdurdod wedi cyfeirio achos yr ymgeisydd i awdurdod lleol arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer cyfeirio at awdurdod lleol arall yn cael eu bodloni).

Nid yw'r HWA yn rhoi hawl i'r ymgeisydd ofyn am adolygiad pellach o benderfyniad adolygiad. Dylid symud pryderon sy'n ymwneud â phwynt cyfreithiol ymlaen i'r Llysoedd. Dylid symud pryderon sy'n ymwneud â chamweinyddu i OGCC ar gyfer ymchwiliad.

<sup>4</sup> Adran 62 HWA

<sup>5</sup> Adran 85 HWA

Mae'r weithdrefn ar gyfer adolygu penderfyniad wedi'i nodi yn y [Rheoliadau Digartrefedd \(Gweithdrefn Adolygu\)\(Cymru\) 2015](#) ("y Rheoliadau")

Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru [God Canllawiau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru ym Mawrth 2016](#) ("y Canllawiau"). Rhaid i awdurdodau lleol ystyried y Canllawiau hyn wrth arfer eu swyddogaethau yng nghyswllt dyraniadau a digartrefedd. Yn fwy diweddar, ac mewn ymateb i'r pandemig, cafodd canllawiau ychwanegol eu cyflwyno i Awdurdodau Lleol yn ymwneud â [chymorth gan Awdurdodau Lleol i bobl sy'n cysgu allan](#) a'i rôl o ran datblygu ymateb lleol effeithiol i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at lanweithdra, yn gallu ynysu'n effeithiol ac yn gallu cael mynediad at gymorth meddygol neu gymorth arall yn ôl yr angen. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau yn ymwneud ag adrannau 70 a 71 HWA a'i rôl o ran ystyried pa mor agored i niwed yw'r bobl sy'n chwilio am lety ac a oes ganddynt angen blaenoriaethol. Mae'r ['Canllawiau ar angen blaenoriaethol am lety – pobl yn cysgu allan yn ystod pandemig COVID 19'](#) yn cyfeirio'n benodol at bandemig COVID 19 a'r angen i hunanynysu a chadw pellter cymdeithasol fel rheswm arbennig dros gynyddu'r angen blaenoriaethol am lety.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Shelter Cymru [adroddiad](#) yn ystyried rhoi HWA ar waith yng nghyd-destun adolygiadau o ddigartrefedd. Fel rhan o'i ymchwil, gofynnodd Shelter Cymru am wybodaeth gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ynglŷn â nifer y ceisiadau am adolygiad a gawsant o dan adran 85 HWA, y rhesymau am yr adolygiadau, a faint o'r penderfyniadau hynny gafodd eu gwrthdroi. Gofynnwyd iddynt hefyd roi'r rhesymau dros y ceisiadau am adolygiad. Darparwyd gwybodaeth gan 20 awdurdod lleol a ddangosodd fod y rhan fwyaf o'r ceisiadau am adolygiad yn 2017-2018 wedi'u gwneud i:

- Caerdydd 185 cais adolygu – 50% wedi'u gwrthdroi
- Wrecsam 50 cais adolygu – 14% wedi'u gwrthdroi
- Sir y Fflint 49 cais adolygu – 37% wedi'u gwrthdroi
- Pen-y-bont 26 cais adolygu – 35% wedi'u gwrthdroi

Derbyniodd yr awdurdodau lleol eraill 16 neu lai o geisiadau adolygu. Roedd y ffigurau hyn yn gyson â nifer yr adolygiadau a gafwyd ac a gadarnhawyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

Yr awdurdodau â'r ganran uchaf o benderfyniadau asesu a wrthdrowyd ar adolygiad oedd:

- Sir Ddinbych 100% wedi'u gwrthdroi – 1 cais adolygu
- Castell-nedd Port Talbot 75% wedi'u gwrthdroi – 6 o 8 cais am adolygiad
- Caerdydd 50% wedi'u gwrthdroi – 93 o 185 o geisiadau am adolygiad
- Powys 50% wedi'u gwrthdroi – 2 o 4 cais am adolygiad
- Gwynedd 46% wedi'u gwrthdroi – 6 o 13 cais am adolygiad

## Beth yw'r materion i'w hystyried?

Mae'r Cod yn datgan y gall ymgeiswyr fwrw ymlaen â chwyn o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth i OGCC mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, fe wnaeth ymholiadau cychwynnol a gynhaliodd OGCC â sefydliadau'r trydydd sector ganfod rhai o'r anawsterau mae pobl ddigartref yn eu hwynebu wrth geisio gweithio'u ffordd drwy'r prosesau cwyno amrywiol os ydynt yn dal yn anfodlon â phenderfyniad, sy'n cynnwys materion fel ymwybyddiaeth a chapasiti i ymgysylltu, ac argaeledd cyllid cyhoeddus.

Er cydnabod gwaith da mudiadau trydydd sector yn cefnogi pobl sy'n ddigartref, ymddengys mai dim ond cyfran fach iawn o bobl ddigartref sy'n cael cymorth yn y broses adolygu neu ymhellach. Nodir ei bod yn ymddangos nad yw pryderon ynghylch ymarfer a'r broses weinyddol, nad ydynt yn faterion a fyddai'n dod o fewn cylch gwaith y Llys, yn gwneud eu ffordd drwy'r system gwyno, nac yn cael eu cofnodi'n ehangach nac o fewn Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn codi pryderon bod cyfleoedd i ddysgu sy'n codi o weithredu HWA o ddydd i ddydd, neu gamau gweithredu cadarnhaol sy'n cael eu cymryd yn anffurfiol i ddatrys problemau'n gynnar, yn cael eu colli.

Fe wnaeth adolygiad o'n cofnodion ymholiadau a chwynion ganfod, ers cychwyn HWA, nad yw OGCC wedi derbyn unrhyw gwynion sy'n ymwneud yn benodol â'r broses adolygu digartrefedd. Ni ddylid cymryd bod absenoldeb y cwynion hyn yn arwydd bod y broses adolygu'n gweithio'n effeithiol ac yn deg i bawb. Yn hytrach, mae'n awgrymu efallai na fydd y bobl yr effeithir arnynt gan benderfyniadau ar ddigartrefedd yn ymwybodol o'r holl lwybrau sydd ar gael iddynt, y bydd ganddynt flaenoriaethau pwysicach, y byddant yn wynebu rhwystrau o ran chwilio am help, neu eu bod wedi colli'r hyder i fynd ar drywydd eu hachosion.

Yn ogystal, cydnabyddir ei bod yn anochel y bydd pobl mewn sefyllfaoedd bregus na fyddant, oni bai eu bod yn cael eu cefnogi, yn medru nac yn gallu mynd ar drywydd materion ymhellach, hyd yn oed os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Y canlyniadau tebygol yw na fydd nifer o bobl a fyddai â hawl i ofyn am adolygiad yn gwneud hynny neu, mewn achosion lle nad yw'r adolygiadau wedi cael eu gweinyddu'n briodol, na fydd y camgymeriadau neu'r methiannau hyn yn cael eu canfod na'u cywiro. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at golli cyfleoedd i ddarparu cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf, ac i wella'r gwasanaeth. Mae'r profiadau a'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud yn ystod y pandemig yn gyfle arwyddocaol i ystyried a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

<sup>6</sup> Adran 5 Deddf 2019

## Yr Ymchwiliad Cynnig

Er mwyn cynnal ymchwiliad dan adran 4 Deddf 2019, rhaid bodloni'r meini prawf<sup>6</sup> cyhoeddedig. Mae'r meini prawf hyn yn mynnu'r canlynol:

- Bod y mater er budd y cyhoedd
- Bod amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig neu o fethiant, neu fethiant posibl, y gwasanaeth, a allai achosi i berson wynebu anghyfiawnder neu galedi.
- Bod y mater yn effeithio ar grŵp eang o ddinasyddion, i'r fath raddau ei bod yn debygol y byddant yn dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater sy'n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad
- Bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r ymchwiliad
- Bod y dystiolaeth yn argyhoeddiadol.

Bwriedir i'r ymchwiliad hwn ystyried:

- A yw Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan HWA a'r Canllawiau i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cyflawni'n briodol
- A yw'r rheini a allai fod â'r hawl i geisio herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd Awdurdod Lleol wedi dod i ben, yn deall ac yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am adolygiad dan adran 85 HWA
- A yw adolygiadau a gynhelir yn unol ag adran 85 HWA yn cael eu gweinyddu'n briodol
- Y rhesymau a roddwyd dros wrthdroi penderfyniadau ynghylch asesiadau ac, os yw'n briodol, a yw gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu gyda'r Awdurdodau Lleol hynny neu'n ehangach
- Mewn achosion lle nad yw'r penderfyniadau wedi cael eu gwrthdroi, a yw'r rheini yr effeithiwyd arnynt yn ymwybodol o'r atebion eraill sydd ar gael iddynt
- Yr amrywiaeth o gamau gweithredu a dulliau gweinyddol a gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol yn ystod y pandemig i asesu, adolygu a mynd i'r afael ag anghenion pobl ddigartref, neu'r rheini sy'n datgan eu bod yn ddigartref, er mwyn nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau ehangach neu dymor hwy.

Ystyrir bod y cynnig hwn yn bodloni'r Meini Prawf ar gyfer cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun am y rhesymau canlynol:

### **Bod y mater er budd y cyhoedd**

- Derbynnir bod budd y cyhoedd yn "rhywbeth sydd o bwys gwirioneddol ac er budd y cyhoedd" Rydyn ni'n ystyried ei fod yn rhywbeth sy'n effeithio ar y cyhoedd yn hytrach na mater sydd o ddiddordeb i'r



cyhoedd, neu'n fater sy'n effeithio ar unigolyn (er y gall effeithio ar unigolyn yn fwy uniongyrchol na'r cyhoedd yn ehangach). Gall y cyhoedd, yn y cyd-destun hwn, gyfeirio at adran benodol o'r cyhoedd neu boblogaeth Cymru gyfan.

- Mae digartrefedd yn gallu effeithio ar grŵp eang o unigolion ledled Cymru ac mae ganddo'r potensial i effeithio ar gymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'r pandemig wedi cadarnhau bod digartrefedd yn ymestyn y tu hwnt i'r rheini sydd i'w gweld yn cysgu allan ar y stryd, ac yn cynnwys y rheini sydd mewn llety dros dro annigonol hefyd. Yn ystod y pandemig, mae [dros 800 o bobl](#) wedi cael help gan Awdurdodau Lleol a'u hasiantaethau partner amrywiol.

### **Mae amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig neu o fethiant, neu fethiant posibl, y gwasanaeth, a allai achosi i berson wynebu anghyfiawnder neu galedi.**

- Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd yn dangos bod cyfran helaeth o benderfyniadau asesu yn cael eu gwrthdroi ar adolygiad gan rai awdurdodau lleol o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn awgrymu y gellid bod tystiolaeth o gamweinyddu systemig o ran delio ag asesiadau a cheisiadau am adolygiadau a/neu fethiant ar ran yr awdurdodau lleol i ddysgu o'r adolygiadau hyn.
- Hefyd, mae rhywfaint o bryderon ynghylch sut mae rhai awdurdodau lleol yn mynd ati i gipio data o'r fath, sy'n awgrymu bod cyfleoedd i wella gwasanaethau yn cael eu colli.
- Yn ogystal â hyn, gallai lefel isel yr adolygiadau mewn rhai awdurdodau lleol awgrymu bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r hawl, neu i ba raddau caiff yr hawl ei hyrwyddo, yn isel – sy'n awgrym o gyfathrebu gwael yn arwain at gamweinyddu systemig.

### **Mae'r mater yn effeithio ar grŵp eang o ddinasyddion, i'r fath raddau ei bod yn ymddangos eu bod yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater sy'n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad**

- Yn 2017-2018 aseswyd bod 11,000 o aelwydydd yng Nghymru yn ddigartref.
- Mae absenoldeb cwynion i OGCC am y mater hwn yn awgrymu ei bod yn bosibl bod yr unigolion agored i niwed yr effeithir arnynt ddim yn ymwybodol, ddim yn deall, neu ddim yn gallu arfer eu hawl i uwchgyfeirio eu cwyn i OGCC.
- Gallai ymchwiliad ar ei liwt ei hun gan OGCC arwain at ddysgu gwersi ehangach ledled Cymru ac mae OGCC mewn sefyllfa dda i gynnal yr ymchwiliad hwn.

## Mae digon o dystiolaeth i gefnogi'r ymchwiliad

Mae tystiolaeth sylweddol yn ymwneud â'r cynnig a'r materion penodol a nodir. Mae tystiolaeth o sawl ffynhonnell wedi cael eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Polisi, canllawiau statudol a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru
- Strategaethau, cynlluniau gweithredu a pholisïau digartrefedd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru
- Dogfennau ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill gan Archwilio Cymru a sefydliadau'r trydydd sector, fel Shelter Cymru a Llamau
- Gwybodaeth a gyhoeddir gan StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol;
- Adroddiadau'r Cyfryngau

## Mae'r dystiolaeth yn argyhoeddiadol

Mae'r dystiolaeth uchod, yn ein barn ni, yn gredadwy, yn ddibynadwy ac yn awgrymu bod camweinyddu systemig o ran sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweinyddu'r broses o asesu<sup>4</sup> ac adolygu<sup>5</sup> digartrefedd. Mae sylw helaeth wedi cael ei roi i ymdrechion diweddar Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn ymateb i'r pandemig, sy'n golygu ei bod yn berthnasol i ni ystyried sut gellid defnyddio'r camau gweithredu a'r hyn a ddysgwyd o arferion gweinyddol da yn ystod y pandemig i sbarduno newid neu ddysgu ehangach.

Yn unol ag adran 4(2)(c) Deddf 2019, mae OGCC yn ceisio barn ar yr ymchwiliad arfaethedig, y cwmpas a awgrymir, ac a fyddai er budd y cyhoedd i OGCC ymchwilio i'r mater hwn.

Byddai tystiolaeth neu farn yn cael croeso arbennig gan:

- Y rhai sydd, neu sydd wedi bod yn ddigartref, ac sydd wedi profi'r broses asesu neu adolygu
- Pobl sydd wedi cael profiad o gynnal asesiadau ac adolygiadau digartrefedd
- Y rhai sydd wedi cael profiad o gynorthwyo pobl drwy'r broses hon neu sydd wedi bod drwy'r broses asesu eu hunain
- Awdurdodau lleol a chyrrff cynrychioliadol awdurdodau lleol
- Adfocadau
- Mudiadau'r trydydd sector
- Cynrychiolwyr etholedig
- Pobl sydd â diddordeb yn y pwnc hwn.

## Yr Ymgynghoriad

## Sut mae Cyfrannu

Gellir darparu ymatebion ar-lein yma, neu drwy'r post i'r cyfeiriad ar dudalen 2 y ddogfen hon. Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig, dylech gynnwys disgrifiad byr o rôl eich mudiad (lle y bo'n briodol), eich profiadau yn y maes hwn ac unrhyw farn ar y canlynol:

1. A yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i sicrhau bod asesiadau yn cael eu cyflawni'n briodol?
2. A yw ymgeiswyr digartrefedd yn cael gwybodaeth berthnasol ac yn cael gwybod am eu hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a wnaed naill ai ynghylch yr asesiad o'u cais digartrefedd, neu os ydynt yn anghytuno â'r awdurdod lleol bod y ddyletswydd wedi dod i ben?
3. A yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r weithdrefn a'r amserlenni fel y nodir yn y Rheoliadau pan dderbynnir cais am adolygiad?
4. Pan fydd penderfyniad asesu yn cael ei wrthdroi ar adolygiad, a yw awdurdodau lleol yn cymryd camau digonol i sicrhau na fydd y diffygion a nodwyd yn cael eu hailadrodd?
5. A yw'r gwersi a ddysgwyd o'r datrysiadau anffurfiol o asesiadau a gafodd eu gwrthdroi yn cael eu cyfleu a'u hystyried gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno neu oruchwylio'r gwasanaeth, i oleuo dysgu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau'n unol â'u dyletswyddau statudol?
6. Ar sail eich profiad chi, pa effaith mae COVID-19 wedi'i chael ar y broses asesu digartrefedd?
7. Ar sail eich profiad chi, pa effaith mae COVID-19 wedi'i chael ar y broses adolygu?
8. Yng nghyswllt cwestiynau 6 a 7 uchod, ac ar sail eich profiad chi, beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd heb weithio?
9. A yw er budd y cyhoedd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun i'r materion a nodir uchod?
10. A yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn sefydliad priodol i gynnal ymchwiliad o'r fath?
11. A fyddai penderfyniad i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu ar y ffordd y caiff y Gymraeg ei thrin?

Rydym yn croesawu ymatebion yn y Gymraeg a'r Saesneg.  
Diolch i chi am eich cydweithrediad.